


# Caerdydd sy'n Dda i Blant

## Adroddiad Blynyddol

## 2024/25

Child Friendly Cardiff Caerdydd Sy'n Dda i Blant

CARDIFF CAERDYDD

2023–2026 DINAS SY'N DDA I BLANT unicef UNITED KINGDOM

# Cynnwys


CYFLWYNIAD 2

LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD 3

BETH YW HAWLIAU PLANT? 4

YNGLŶN Â DINASOEDD SY'N DDA I BLANT 4

DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT 5

1. ADDYSG AR HAWLIAU PLANT
   - 1.1 Datblygu'r Gweithlu 6
   - 1.2 Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau 8

2. LLE – CYNLLUNIO A DYLUNIO TREFOL 11

3. CYFRANOGIAD A CHYLCH ADBORTH 15

4. CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS
   - 4.1 CEDAW 19
   - 4.2 Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd 20
   - 4.3 Rhaglen Arweinyddiaeth 20
   - 4.4 Ymddygiad a Gwaharddiadau mewn Ysgolion 21
   - 4.5 Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus 21
   - 4.6 Dinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth 22
   - 4.7 Tegwch Rhywedd 23

CANLYNIADAU AROLWG ALLWEDDOL 26

PARTNERIAETHAU PARHAUS 27

CRYNODEB 28

GEIRFA 29

Mae Caerdydd yn falch o gael ei chydnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant, wedi'i harwain gan egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae plant, pobl ifanc, ysgolion, cymunedau, a'r Cyngor wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hawliau nid yn unig yn eiriau ar bapur ond yn realiti ym mywydau pobl ifanc ledled ein dinas.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ail flwyddyn cynllun cynaliadwyedd tair blynedd Caerdydd, sy'n nodi ein hymrwymiad ar y cyd i ymgorffori a chryfhau'r statws hwn. Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn parhau i fod yn benderfynol o adeiladu ar y momentwm hwn wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn olaf y cynllun a thu hwnt.

Rydym wedi gweld effaith wirioneddol. Mae cyrhaeddiad disgyblion yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer canlyniadau TGAU a Safon Uwch, gan adlewyrchu ymroddiad ein hysgolion a'n dysgwyr. Mae mwy o ysgolion nag erioed yn cofleidio'r fframwaith Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, gyda dros 80% bellach wedi'u hachredu a nifer cynyddol yn cyflawni statws arian ac aur. Yn y Cyngor, mae dros 80% o staff wedi cwblhau Hyfforddiant Hawliau Plant – gan ragori ar ein targed ail flwyddyn a'n cadw ar y trywydd iawn i gydymffurfio'n llawn erbyn 2025-26.
Mae plant a phobl ifanc yn siapio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt fwyfwy – o ddylanwadu ar bolisïau ysgolion a chynllunio dinasoedd i gymryd rhan mewn dadleuon cenedlaethol. Ynghyd â'r cyfranogiad dinesig cynyddol hwn, rydym wedi parhau i gryfhau'r gwasanaethau sy'n cefnogi ein plant sydd fwyaf agored i niwed. Trwy ein Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant, rydym wedi gweld newid cadarnhaol yn y cydbwysedd gofal, gan helpu mwy o blant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd a'u cymunedau.

Eto, gwyddom fod heriau'n parhau. Mae ysgolion yn parhau i'w chael hi'n anodd â phresenoldeb, gwaharddiadau, a'r galw cynyddol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a thrafnidiaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod dan bwysau, gyda llawer o blant mewn gofal angen cymorth mwy cymhleth a chostus. Ar yr un pryd, mae effaith barhaus anghydraddoldeb, yr argyfwng costau byw, ac etifeddiaeth pandemig Covid-19 yn parhau i effeithio ar les llawer o bobl ifanc.

Wrth edrych ymlaen, mae ein gweledigaeth ar y cyd yn glir: Caerdydd lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi a'i rymuso i gyrraedd ei botensial llawn. Rydym am i hawliau plant aros wrth wraidd popeth a wnawn fel dinas – mewn ystafelloedd dosbarth, mewn cymunedau, ac yn y penderfyniadau sy'n siapio dyfodol Caerdydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ddathliad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, ond hefyd yn atgoffa o'r gwaith sydd i'w wneud o hyd. Gyda phlant a phobl ifanc fel partneriaid cyfartal, byddwn yn parhau i adeiladu ar statws Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant a sicrhau ei bod yn cyflawni ar gyfer pob plentyn.

Y Cynghorydd Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg)
ac Emily Gao (Cadeirydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

# CYFLWYNIAD

Ymunodd Cyngor Caerdydd a'n partneriaid lleol â Phwyllgor y DU ar gyfer rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF (UNICEF UK) yn 2017. Ar ôl blynyddoedd o waith i ymgorffori hawliau plant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau, yn creu polisïau, ac yn darparu gwasanaethau, enwyd Caerdydd yn swyddogol yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF gyntaf y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2023.

Ar ddiwedd 2023, fe wnaethom lansio Cynllun Cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant tair blynedd i lywio cam nesaf y daith hon. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ail flwyddyn y cynllun hwnnw, gan fyfyrio ar y cynnydd a wnaed hyd yma a nodi sut rydym yn parhau i gryfhau ein hymrwymiad i hawliau plant.

Mae'r cynllun yn ymwneud â sicrhau bod babanod, plant a phobl ifanc nid yn unig yn gwybod beth yw eu hawliau ond yn gallu eu defnyddio yn eu bywydau bob dydd – i gymryd rhan mewn penderfyniadau, cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, a chael eu trin â thegwch a pharch. Roedd cydnabod Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant yn garreg filltir bwysig, ond mae ein ffocws yn parhau i fod yn gadarn ar adeiladu dinas lle mae hawliau'n realiti byw i bob plentyn a pherson ifanc.

## Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

### Addysg ar Hawliau Plant

Rydym yn addysgu pawb yng Nghaerdydd am hawliau plant fel eu bod yn eu deall a'u parchu.

### Cyfranogiad

Rydym yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud am sut mae Caerdydd yn cael ei rhedeg a sut mae'r ddinas yn datblygu.

### Lle

Rydym yn dylunio adeiladau a gofodau Caerdydd gan roi ystyriaeth i blant, fel eu bod yn ddiogel, yn llawn hwyl ac yn deg.

### Cyfartal ac yn Cael eu Cynnwys

Rydym am i bob plentyn, ni waeth pwy ydyw, deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys yng Nghaerdydd.

## Rhestr termau

**Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi tanlinellu rhai o'r geiriau anodd ac wedi cynnwys esboniadau ar y diwedd ar dudalen** **page 23**

## Acronymau Cyffredin

**Weithiau, rydym yn byrhau ymadroddion a ddefnyddir yn aml i'r llythrennau cyntaf yn unig (acronymau). Dyma rai acronymau cyffredin rydym yn eu defnyddio yn y ddogfen hon:**

**CAERDYDD DdB – Caerdydd sy'n Dda i Blant**

**CIC – Cyngor Ieuenctid Caerdydd**

# LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

## Arweinyddiaeth a Goruchwylio

Mae Cabinet (Bwrdd Gweithredol) Cyngor Caerdydd yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol wrth oruchwylio'r cyflawniad, tra bod Uwch Dîm Rheoli (UDRh) y Cyngor yn darparu arweinyddiaeth reolaethol. Mae Grŵp Cyflawni pwrpasol, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr y Cyngor, yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn ymrwymiadau Caerdydd DdB. Mae'r grŵp hwn yn derbyn diweddariadau perfformiad gan swyddogion sy'n gyfrifol am gyflawni ymrwymiadau allweddol, yn nodi meysydd o arfer da, ac yn sicrhau ymatebion amserol i feysydd ffocws.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) – sy'n dwyn ynghyd uwch arweinwyr o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus allweddol y ddinas – yn darparu goruchwyliaeth ehangach o raglen Caerdydd DdB. Mae'r BGC yn cael yr Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn fel rhan o'i waith monitro cynnydd parhaus. Yn ogystal, myfyrir ar ddiweddariadau ynghylch y rhaglen yn Adroddiad Blynyddol y BGC ei hun, gan helpu i gynnal gwelededd ac atgyfnerthu atebolrwydd ar draws tirwedd gwasanaeth cyhoeddus y ddinas.

## Adrodd

Adroddir am gynnydd yn flynyddol drwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei dderbyn gan y Cabinet, UDRh, a'r Grŵp Cyflawni, ac mae'n cael ei lofnodi'n ffurfiol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Addysg. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i UNICEF fel rhan o ymrwymiadau parhaus Caerdydd ar gyfer bod yn Ddinas sy'n Dda i Blant.



# BETH YW HAWLIAU PLANT?

Rydym am i Gaerdydd fod 'yn lle gwych i gael eich magu'. Rydym am fyw mewn dinas gyda phlant a phobl ifanc wrth ei chalon, lle caiff lleisiau, anghenion a hawliau pob plentyn a pherson ifanc eu parchu.

Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau dynol cyffredinol ag oedolion a hefyd hawliau penodol sy'n cydnabod eu hanghenion arbennig.  Nid yw plant yn eiddo i'w rhieni nac yn wrthrychau diymadferth sydd angen elusengarwch.  Bodau dynol ydynt gyda'u hawliau eu hunain.

Mae gan blant 42 o hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r 42 o hawliau hyn yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.
Mae Hawliau Plant mor bwysig y penderfynodd Cymru eu rhoi wrth wraidd ei chyfreithiau 15 mlynedd yn ôl. Mae'n rhaid i'r holl weinidogion, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau cenedlaethol mawr yng Nghymru roi sylw i hawliau plant ym mhopeth y maent yn ei wneud.




# YNGHYLCH DINASOEDD A CHYMUNEDAU SY'N DDA I BLANT

Mae Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant (CDdB) yn rhaglen UNICEF UK sy'n gweithio gyda chynghorau i roi hawliau plant ar waith. Nod y rhaglen yw creu dinasoedd a chymunedau yn y DU lle mae pob plentyn – p'un a yw'n byw mewn gofal, yn defnyddio canolfan blant, yn mynd ar y bws, neu'n ymweld â'u llyfrgell leol – yn cael lleisio barn ac elwa'n wirioneddol ar y penderfyniadau, y gwasanaethau a'r gofodau lleol sy'n llywio eu bywydau.

Mae cydnabyddiaeth fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF yn golygu bod UNICEF yn cydnabod yn gyhoeddus fod cyngor a'i bartneriaid cymunedol lleol wedi cymryd camau sylweddol a chynaliadwy mewn meysydd penodol tuag at hyrwyddo hawliau dynol plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn eu dinas neu gymuned. Mae cydnabyddiaeth yn para am dair blynedd cyn iddynt wneud cais am ailasesiad gan UNICEF UK i wirio pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r rhaglen yn rhan o Dinasoedd sy'n Dda i Blant – menter fyd-eang gan UNICEF sy'n cefnogi mwy na 30 miliwn o blant mewn dros 40 o wledydd.



# DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT

Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru yn ffordd o weithio gyda phlant ac ar eu cyfer, ar sail CCUHP, i helpu cyrff cyhoeddus i ymgorffori hawliau plant ym mhob rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a'r gwaith a wnânt (mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â 7 egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant UNICEF). Mae 5 Egwyddor Y Ffordd Gywir yn ffordd o weithio gyda phlant yn seiliedig ar eu hawliau isod:

1. **Ymgorffori Hawliau Plant:** Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori wrth wneud penderfyniadau, polisïau ac arferion pob dydd.
2. **Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu:** Hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn gwahaniaethu fel bod gan bob plentyn fynediad cyfartal i'w hawliau.
3. **Grymuso Plant:** Grymuso plant i fynegi eu barn ac ymwneud â materion sy'n effeithio arnynt.
4. **Atebolrwydd:** Dal sefydliadau yn atebol am weithredu hawliau plant a sicrhau tryloywder.
5. **Cyfranogiad:** Sicrhau bod plant yn cael eu clywed a bod eu barn yn sail i wneud penderfyniadau.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, soniwyd am (neu awgrymwyd) 5 egwyddor y Ffordd Gywir, a'u nodi mewn **teip trwm** i ddangos ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gynnal y gwerthoedd hyn. Trwy amlygu'r ffyrdd hyn o weithio, mae'r adroddiad hwn yn ceisio dangos ymrwymiad y Cyngor i ymgorffori hawliau plant yn ei brosesau gwneud penderfyniadau a sut rydym yn gweithio.

# 1.1 ADDYSG AR HAWLIAU PLANT

## Datblygu'r Gweithlu

**Rydym am i oedolion ledled y ddinas feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chefnogi plant i hawlio eu hawliau.**

## Dull Gweithredu

Eleni, mae Caerdydd yn parhau â'i hymrwymiad i **ymgorffori hawliau plant** wrth wraidd penderfyniadau a datblygu polisïau'r Cyngor, gan gydnabod bod cynnig hyfforddiant amrywiol a chynhwysol i staff yn allweddol i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

### Cynyddu nifer y staff sy'n gwybod am hawliau plant

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ehangu ac amrywio ein cynnig hyfforddiant hawliau plant i sicrhau ei fod yn hygyrch i holl staff y Cyngor, gan gynnwys y rhai sydd heb fynediad rheolaidd at gyfrifiadur personol neu sy'n well ganddynt fformatau dysgu amgen. Mae'r hyfforddiant bellach ar gael mewn sawl fformat: llyfr gwaith y gellir ei agor fel dogfen PDF neu Word, cyflwyniad PowerPoint, a fideo. Mae rheolwyr wedi cael mynediad i'r holl adnoddau hyn, ynghyd â phrofion gwybodaeth cysylltiedig y maent yn eu goruchwylio i asesu dealltwriaeth staff. Ar ôl pasio, mae staff yn cael eu marcio fel rhai sy'n cydymffurfio â hyfforddiant hawliau plant.

Yn ogystal â'r adnoddau hyn, rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dangosfwrdd cydymffurfio digidol i nodi timau sydd angen cymorth ychwanegol. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno sesiynau hawliau plant personol i sawl tîm, gan gynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, Maethu, a'r Gwasanaeth Cerdd. Trefnwyd y sesiynau hyn ar adegau a lleoliadau a oedd yn addas i bob tîm, gan gydnabod a pharchu natur unigryw eu gwaith. Mae'r dull hwn wedi helpu i **ymgorffori hawliau plant** yn fwy ystyrlon ar draws meysydd gwasanaeth amrywiol.

### Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant Hawliau Plant a Chyfranogiad pwrpasol i wahanol grwpiau

Rydym wedi parhau i nodi meysydd yn y Cyngor lle byddai hyfforddiant hawliau plant a **chyfranogiad** pwrpasol yn cefnogi staff yn eu rolau unigryw. Eleni, fe wnaethom gyflwyno sesiynau wedi'u teilwra i lywodraethwyr ysgolion (tair sesiwn), y tîm maethu yn y Gwasanaethau Plant (dwy sesiwn), a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar (un sesiwn). Mae pob hyfforddiant ac adnoddau cysylltiedig yn wahanol i sicrhau bod staff wedi'u paratoi i hyrwyddo a diogelu hawliau plant mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w gwaith.

Rydym hefyd yn datblygu cyfres o adnoddau hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig, gan gynnwys PowerPoint pwrpasol a fideo hyfforddi. Trwy dynnu sylw at ddyletswydd aelodau tuag at hyrwyddo hawliau plant, bydd yr adnoddau hyn yn atgyfnerthu **atebolrwydd** a hyrwyddo'r neges y dylid **peidio â gwahaniaethu** trwy bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a phobl ifanc.

### Creu model 'Hyrwyddwyr Hawliau Plant'

Ar ôl archwilio'r ffordd fwyaf effeithiol o ledaenu gwybodaeth i reolwyr, cytunwyd nad modiwl hyfforddi ffurfiol yw'r ateb mwyaf ymarferol. Er mwyn sicrhau bod canllawiau ar hyrwyddo hawliau plant yn parhau i fod yn hygyrch ac yn weithredol, rydym wedi datblygu dogfen o'r enw Hyrwyddo Hawliau Plant: 5 Cyfrifoldeb Allweddol i Reolwyr Mae'r adnodd hwn yn amlinellu gwybodaeth hanfodol am CCUHP ac yn cyflwyno pum cam ymarferol y gall rheolwyr eu cymryd i hyrwyddo ac ymgorffori hawliau plant yn eu timau yn ystyrlon. Ar hyn o bryd, rydym yn creu fersiynau hygyrch o'r ddogfen, gan gynnwys cyfieithiad Cymraeg, a byddwn yn sefydlu cynllun clir ar gyfer rhannu'r adnodd yn y ffordd fwyaf effeithiol a chynhwysol ar draws y sefydliad.

I gloi, mae ein gwaith parhaus i ymgorffori hawliau plant ar draws y Cyngor wedi cael effaith gadarnhaol a chynyddol, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i addasu ein dull i ddiwallu anghenion esblygol ein gweithlu a'n cymuned.

## Effaith

Ers y llynedd, mae canran cydymffurfio hawliau plant y Cyngor wedi cynyddu

**o 70% i 85%**

Mae hyn dros ein heffaith a ragwelir o 70% yn yr ail flwyddyn.

Cyn yr hyfforddiant, dim ond 68% o'r cyfranogwyr oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn teimlo'n wybodus ac yn hyderus am hawliau plant. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, **cododd y ffigur hwn i 100%**

**O fis Gorffennaf 2024 i fis Gorffennaf 2025, rydym wedi darparu:**

Hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion, Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, a Thîm Maethu'r Gwasanaethau Plant

**Hyfforddiant Hawliau Plant**
17 sesiwn, 209 o fynychwyr



### Sylwadau'r Hyfforddiant:

"Roedd y trafodaethau yn amhrisiadwy ac yn cyfrannu at yr hyfforddiant a gyflwynwyd yn llwyddiannus"

"Roedd yr hyfforddwr yn ardderchog – yn wybodus a diddorol, dyma'r hyfforddiant gorau dw i wedi bod arno ers tro, dw i'n ei argymell yn fawr!"

# 1.2 ADDYSG AR HAWLIAU PLANT
## Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau

**Ar draws y ddinas, rydym am i blant feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chael eu cefnogi'n weithredol i fynnu eu hawliau.**

## Dull Gweithredu

### Cefnogi ysgolion i ymgysylltu â Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF (GYPH)

Mae plant yng Nghaerdydd wedi bod yn glir – maent am ddysgu am eu hawliau yn yr ysgol ac o'r cyfle cyntaf. Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF yw'r fframwaith rydym yn ei ddefnyddio i wneud i hyn ddigwydd. Mae'n helpu ysgolion i **ymgorffori hawliau plant** mewn bywyd bob dydd, gan lunio polisïau, addysgu a pherthnasoedd fel bod pob plentyn yn gwybod, yn deall, ac yn gallu mwynhau eu hawliau.

Trwy ein cytundeb lefel gwasanaeth gydag UNICEF UK, gall pob ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd gofrestru, derbyn hyfforddiant, cael mynediad at adnoddau, a chymryd rhan mewn asesiadau â sicrwydd ansawdd heb unrhyw gost iddynt. Mae hyn yn dileu rhwystrau ac yn sicrhau bod y wobr ar gael ar gyfer pob lleoliad addysg a gynhelir.

Eleni, rydym wedi cryfhau ein cymorth uniongyrchol, personol. O fis Ionawr, dechreuodd ein tîm Caerdydd DdB gyflwyno ymweliadau wedi'u teilwra ag ysgolion, gan gynnig arweiniad, ateb cwestiynau, a helpu staff a disgyblion i gynllunio eu camau nesaf. Mae'r cymorth hwn yn rhoi'r hyder a'r wybodaeth sy'n benodol i'r lleoliad i ysgolion sy'n eu galluogi i symud ymlaen ac ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth ystyried polisi, ymarfer ac addysgeg. Mae staff yn dweud wrthym fod y cymorth pwrpasol hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan eu helpu i droi bwriadau da yn gynnydd gweladwy.

Rydym hefyd wedi cymryd yr awenau ar asesiadau lefel Arian, sy'n golygu bod ysgolion Caerdydd yn elwa ar ymweliadau wyneb yn wyneb a ddarperir yn lleol yn hytrach nag asesiadau o bell. Mae'r dull hwn yn meithrin perthnasoedd cryfach, yn sicrhau bod adborth wedi'i wreiddio yng nghyd-destun Caerdydd, ac yn cefnogi'r cynnydd cyson yn nifer yr ysgolion sy'n cyflawni lefelau uwch y wobr.

Daeth ein digwyddiad dathlu blynyddol GYPH â disgyblion, staff ac arweinwyr o bob cwr o'r ddinas ynghyd i rannu cyflawniadau ac ysbrydoli ei gilydd. Roedd y diwrnod yn cynnwys "clinig galw heibio" i athrawon, gweithgareddau dan arweiniad disgyblion, a chyfle i ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan weld manteision dull sy'n seiliedig ar hawliau yn uniongyrchol.

### Datblygu a chyflwyno dull cynaliadwy ar gyfer GYPH yng Nghaerdydd

Caerdydd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru a Lloegr i hyfforddi swyddogion cyngor lleol yn llawn fel aseswyr Arian achrededig gan UNICEF, gan greu model mwy cynaliadwy a chost-effeithiol ar gyfer y dyfodol. Eleni, rydym wedi parhau i adeiladu gallu a phrofiad aseswyr, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno hyfforddiant aseswyr lefel Aur. Rydym eisoes wedi dechrau asesiadau Aur cysgodol i wneud yn siŵr ein bod yn barod i gynnig y cam nesaf hwn yn lleol cyn gynted ag y bydd ar gael.

Rydym yn parhau i gynnal a datblygu ein cronfa ddata GYPH, sy'n ein galluogi i fonitro cynnydd yn agos a darparu cynigion cymorth wedi'u targedu. Mae hyn yn sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon – gallwn ymateb yn gyflym i ysgolion sydd angen help ychwanegol a chydnabod y rhai sy'n barod i symud ymlaen.

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd wedi tyfu, gyda'n haseswr Cymraeg yn cefnogi ysgolion i gyflwyno'r wobr yn iaith gyntaf y disgyblion. Mae gwaith wedi'i dargedu gydag ysgolion arbennig a lleoliadau nad ydynt yn cymryd rhan wedi sicrhau bod pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn cael y cyfle i elwa ar addysg ar hawliau.

Trwy ymgorffori'r GYPH yn strategaeth addysg ein dinas, rydym yn creu diwylliant parhaol lle mae hawliau plant yn cael eu deall, eu parchu a'u hyrwyddo gan ddisgyblion ac oedolion. Erbyn heddiw, mae hanner ein hysgolion wedi ennill naill ai Arian neu Aur.

## Effaith

"Mae lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion wedi gwella'n ddramatig, ac mae plant yn gwybod bod ganddynt lais ac yn cael eu gwerthfawrogi ac mae cynhwysiant wedi eu harwain i gymryd mwy o atebolrwydd am eu dysgu a'u diddordeb yn yr ysgol a'u cariad at yr ysgol. Mae presenoldeb wedi cynyddu hefyd oherwydd bod disgyblion eisiau bod yn yr ysgol yn fwy"

– Pennaeth mewn ysgol Arian

**Mae chwarter ysgolion Caerdydd wedi ennill gwobr Aur!**

**Mae hanner wedi ennill gwobr Arian neu Aur!**

"Bod yn rhan o grwpiau llais y disgybl yw fy hoff beth am yr ysgol. Dw i'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi wrth wneud penderfyniadau. Dw i'n hoffi bod yn rhan o gyfarfodydd a rhannu fy safbwyntiau. Erthygl 12, dyna fy ffefryn"

– Disgybl Blwyddyn 6 mewn ysgol arian yng Nghaerdydd

**O'r 128 o ysgolion a gynhelir, mae 104 yn ymwneud â'r GYPH**




**Dewch o hyd i ysgol ar ein map!**

"Mae hawliau ar gyfer pob plentyn yn y byd, ym mhob gwlad. Eich hawliau chi yw eich rhai chi bob amser. Does dim rhaid iddyn nhw gael eu hennill. Maen nhw i gyd yn gyfartal. Yn ein hysgol ni, mae'r rheini sydd â dyletswydd yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael ein hawliau."

– Disgybl Blwyddyn 5 mewn ysgol aur yng Nghaerdydd

# Hawliau Plant ar Waith
## Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau

### Amara



Pan ymunodd Amara â'i hysgol newydd yng Nghaerdydd, roedd hi'n nerfus am ddechrau mewn rhywle anghyfarwydd. Yn y wlad roedd hi'n byw o'r blaen, nid oedd hi erioed wedi dysgu am hawliau plant ac yn teimlo nad oedd ei llais yn bwysig.

O'i diwrnod cyntaf, roedd pethau'n wahanol. Roedd grŵp croesawgar o ddisgyblion – rhai yn siarad ei hiaith gyntaf – yn gwneud iddi deimlo'n ddiogel ac yn gartrefol. Dysgodd yn gyflym am ei hawliau mewn gwersi, gwasanaethau, ac ar draws bywyd yr ysgol.

Wedi'i hannog i ddefnyddio ei llais, ymunodd Amara â grwpiau disgyblion, cymryd rhan mewn cyfweliadau staff, a helpu i lunio polisïau ysgol trwy lens hawliau. Dros amser, dechreuodd hefyd siarad dros eraill – yn enwedig newydd-ddyfodiaid – a rhannu syniadau gyda'r Cyngor ar sut i wneud y ddinas yn fwy croesawgar i bobl ifanc.

O fewn blwyddyn, roedd hyder Amara wedi ffynnu. Roedd yn teimlo ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ysgol sydd wedi'i hadeiladu ar barch a chydraddoldeb, lle roedd ei safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi ac roedd ganddi'r pŵer i siapio ei hysgol, ei dinas a'i haddysg.



# 2. LLE – CYNLLUNIO A DYLUNIO TREFOL

**Rydym am i Gaerdydd gael ei dylunio gyda phlant a'i siapio gan eu profiadau, gan gynnwys sut maent yn symud o gwmpas y ddinas ac yn mwynhau mannau cyhoeddus.**

## Dull Gweithredu

### Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor yn gwybod beth mae plant yn ei feddwl am eu cymdogaeth a'u dinas.

Mae Caerdydd DdB wedi cynnal llawer o ymgynghoriadau gwahanol gyda phlant ar sut maent yn defnyddio ac yn gweld eu hardal leol. Mae'n bwysig bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Caerdydd. Fe wnaethom ddod â grŵp o aelodau etholedig at ei gilydd i'w hysbysu am yr ymgynghoriadau a'r data a gasglwyd. Fe wnaethom hefyd siarad â llawer o wahanol swyddogion cyngor ym maes cynllunio, parciau, adfywio cymdogaethau, chwarae a mwy, am y data pwysig a gasglwyd gennym gyda phlant. Mae'r data hwn bellach yn hygyrch i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor, er mwyn sicrhau ein bod yn **ymgorffori hawliau plant** mewn cynllunio a dylunio. Trwy rannu tystiolaeth yn uniongyrchol gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, rydym hefyd yn hyrwyddo atebolrwydd am weithredu ar farn plant.

### Sicrhau bod cynllunio a dylunio mannau cyhoeddus yn gynhwysol ac nid yw'n gwahaniaethu

Gwnaeth Caerdydd DdB gomisiynu prosiect ymchwil dan arweiniad Prifysgol Caerdydd i ddeall yn well sut beth yw bod yn ferch yn ei harddegau yng Nghaerdydd, yn enwedig mewn parciau. Mae'r ymchwil hon yn helpu i sicrhau bod mannau wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rhai sy'n aml ar y cyrion, gan gynnal cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu. Rydym hefyd wedi gweithio gyda thîm cynllunio'r ddinas i gasglu sylwadau terfynol ac adborth gan blant ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diweddaraf ar gyfer y ddinas. Fe wnaethom gynnal gweithdai gyda Chyngor Ieuenctid Caerdydd a dwy ysgol uwchradd i wneud yn siŵr bod y CDLl yn adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion plant ledled y ddinas. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i gymryd rhan, gan sicrhau bod lleisiau plant nid yn unig yn cael eu clywed ond yn dylanwadu ar gynllunio dinas hirdymor. Ymhlith y themâu a archwiliwyd oedd hinsawdd, trafnidiaeth, tai, swyddi, hamdden/chwarae a mannau gwyrdd. Ynghyd â'r data a gasglwyd yn flaenorol, mae'r ymarfer ymgynghori diwethaf hwn bellach yn helpu i lunio'r cynllun terfynol, i'w gyflwyno yn 2026. Yn olaf, rydym wedi gwneud cynnydd pellach i ymgorffori'r hawl i chwarae (Erthygl 31) yn y CDLl wrth iddo symud ymlaen trwy'r broses graffu a phroses benderfynu'r cabinet. Rydym yn gweithio gyda chynllunwyr dinas i sicrhau bod Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid yn atebol am wella cyfleoedd i chwarae i blant wrth adeiladu datblygiadau newydd.


### Dechrau gweithio ar 'Weledigaeth ar gyfer Chwarae' ar gyfer Caerdydd

Ynghyd â rhwymedigaethau Cyngor Caerdydd ar ei Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (ADCCh), mae Caerdydd DdB wedi manylu ar sut rydym yn bwriadu arddangos Caerdydd fel dinas sydd â chyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i chwarae ar gyfer pob plentyn. Rydym yn gwybod bod cymaint o waith da yn digwydd ledled y ddinas a bydd ein 'Gweledigaeth ar gyfer Chwarae' yn cyfleu hyn, ynghyd â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu ac enghreifftiau o arfer da o bob cwr o'r byd. Bydd y broses hon yn grymuso plant a phobl ifanc trwy wneud yn glir bod eu profiadau chwarae bob dydd yn siapio gweledigaeth y ddinas.

### Cydweithio â phartneriaid Academaidd a'r Sector Preifat

Mae Caerdydd DdB yn parhau i weithio gydag Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd. Eleni, cynhaliwyd ymchwil bwysig gyda merched i ddeall eu profiad o barciau yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn dau barc ar draws y ddinas ac roedd yn cynnwys arsylwadau, arolwg a grwpiau ffocws. Siaradodd y cyfranogwyr am ddiogelwch, lloches, cyfleusterau chwaraeon sy'n cael eu dominyddu gan ddynion a syniadau sydd wedi'u datblygu ar y cyd i wella mannau gwyrdd i ferched. Mae hyn yn dangos cyfranogiad ar waith, gyda phlant yn cyd-gynhyrchu atebion. Rhannwyd canfyddiadau interim mewn digwyddiad amlasiantaethol ym mis Mai. Rydym hefyd yn falch ein bod wedi dod yn gyfaill beirniadol ar gyfer datblygu Fframwaith 'Amgylcheddau Trefol sy'n Dda i Blant' newydd gan Atkins Realis. Mae'r fframwaith yn archwilio sut mae'r amgylchedd adeiledig yn effeithio ar les plant (4–14 oed) ac yn gofyn sut y gall rhyngweithio â phlant a defnydd plant o fannau wella eu datblygiad. Fel Dinas sy'n Dda i Blant gyntaf y DU, rydym yn treialu'r fframwaith mewn datblygiad tai yn y ddinas, gyda disgwyl adroddiad byr yn nhymor Hydref 2025. Dyma enghraifft arall o ymgorffori hawliau mewn strwythurau cynllunio a sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn cadw at safonau atebolrwydd.

## Effaith



### Mae Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion

yn cael eu hysbysu am farn ac anghenion plant sy'n cefnogi **atebolrwydd**

### Mae ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

ryn adlewyrchu barn ac anghenion plant, gan ddangos **cyfranogiad** ac **ymgorffori hawliau** mewn cynllunio hirdymor.

Mae'r CDLl yn cynnwys canllawiau sy'n benodol i chwarae i gynllunwyr a datblygwyr, gan sicrhau bod **cydraddoldeb ac nad oes gwahaniaethu** trwy wneud chwarae yn hygyrch i bob plentyn.

### Bydd 'Gweledigaeth ar gyfer Chwarae'

yn galluogi llunwyr polisi ac ymarferwyr i nodi arferion da a chyfleoedd i wella chwarae i blant yng Nghaerdydd, gan rymuso plant ymhellach.

Mae adolygiad llenyddiaeth Prifysgol Caerdydd i gefnogi'r 'Weledigaeth ar gyfer Chwarae' yn dyfynnu enghreifftiau cenedlaethol a byd-eang o arfer da. Bydd Caerdydd DdB yn defnyddio'r adolygiad hwn i gryfhau ein dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

### Mae canfyddiadau interim prosiect ymchwil HerParks

o Brifysgol Caerdydd wedi'u rhannu â grŵp eang o randdeiliaid. Bydd papur ymchwil llawn a adolygir gan gymheiriaid yn cael ei gyflwyno i lunwyr polisi a swyddogion cyngor perthnasol yn nhymor Hydref 2025, gan atgyfnerthu atebolrwydd.

### Bydd cynllun peilot Fframwaith Amgylcheddau


Trefol sy'n Dda i Blant yn llunio adroddiad, i'w ddisgwyl yn nhymor Hydref 2025 ar gyfer swyddogion Cyngor Caerdydd, i ystyried canfyddiadau gyda photensial i weithredu newid ar ddatblygiad tai newydd yn y Ddinas. Mae hyn yn ymgorffori hawliau ac atebolrwydd ymhellach mewn datblygiadau yn y dyfodol.

## Beth mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym?

"Mae'n wirioneddol gadarnhaol gweld faint o blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r broses hyd yn hyn, ac yn galonogol bod cynlluniau i gryfhau'r ymgysylltiad hwn hyd yn oed yn fwy yn y dyfodol."

"Er bod Erthygl 31 (yr hawl i chwarae) yn amlwg yn ganolog i'r gwaith hwn, dw i'n credu bod hawliau eraill, fel Erthygl 15 (rhyddid i gysylltu) ac Erthygl 24 (iechyd), hefyd yn bwysig a gallen nhw chwarae rôl gryfach wrth lunio sut rydyn ni'n meddwl am le."

"Mae'r ffordd mae adborth wedi cael ei drin yn gwella – mae pobl yn gwrando ac yn gweithredu ar bryderon, ac mae cynlluniau wedi'u gwneud i gefnogi pawb. Ond byddai'n help pe bai'r ymatebion hyn yn cael eu gwneud yn gliriach ac yn fwy gweladwy, fel bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn teimlo'n rhan o'r broses."



# Hawliau Plant ar Waith
## Lle – cynllunio a dylunio trefol

### Amina




Roedd Amina yn aml yn teimlo'n anniogel yn ei pharc lleol. Roedd yn cael ei ddominyddu gan fechgyn yn chwarae pêl-droed, ac nid oedd llawer o loches na seddi i eraill.

Ymunodd â grŵp ffocws a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd a Caerdydd sy'n Dda i Blant, gan rannu ei phrofiadau a'i syniadau. Helpodd i gyd-ddylunio gwelliannau fel gwell goleuadau, ardaloedd chwarae cynhwysol, a mannau cysgodol.

Mae Amina bellach yn teimlo'n falch o weld ei syniadau yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau'r parc. Mae'n teimlo ei bod yn cael ei chlywed, ei gwerthfawrogi a'i grymuso – gan wybod ei bod yn helpu i wneud Caerdydd yn fwy croesawgar i ferched fel hi.

### Mia

Pan glywodd Mia, myfyrwraig ysgol uwchradd 15 oed, am y Cynllun Datblygu Lleol am y tro cyntaf, roedd yn meddwl ei fod "ar gyfer gwleidyddion yn unig." Yn ei gweithdy, sylweddolodd y byddai'r cynllun yn pennu sut roedd ei dinas yn edrych ac yn teimlo erbyn iddi fod yn oedolyn. Siaradodd Mia yn angerddol am wasanaethau bws: pa mor ddrud oedd tocynnau, gan ei hatal hi a'i ffrindiau rhag mynd i weithgareddau ar ôl ysgol. Tynnodd sylw hefyd at y diffyg llwybrau beicio diogel yn ei chymdogaeth.

Am y tro cyntaf, roedd yn teimlo bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wir yn gwrando. Ar ôl y sesiwn, dywedodd Mia: "Mae'n teimlo fel bod gennyn ni'r pŵer i wneud Caerdydd yn well i ni ac i'r plant sy'n dod ar ein hôl."

# 3. CYFRANOGIAD A CHYLCH ADBORTH

**We want to make sure Children's opinions and experiences are regularly used to help shape, improve, and review policies, services, and programmes.**

## Dull Gweithredu

### Gwella Cyfranogiad plant, yn enwedig y rhai dan 11 oed, gan sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc helpu i lunio gwasanaethau a gwneud gwahaniaeth. .

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i ddod yn ddinas lle mae babanod, plant a phobl ifanc yn ymwneud yn ystyrlon â llunio'r penderfyniadau, y gwasanaethau a'r amgylcheddau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae cyfranogiad o ansawdd uchel yn hawl ac yn sbardun canlyniadau gwell i unigolion, cymunedau a gwasanaethau. Fel rhan o'i huchelgais i arwain fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, mae Caerdydd yn cynnal Adolygiad Cyfranogiad ledled y ddinas i ddeall yr arferion cyfredol, nodi cryfderau a heriau, a phenderfynu beth sydd ei angen i ymgorffori dull cyson, cynhwysol ac effeithiol ar gyfer cyfranogiad.

Mae'r adolygiad hyd yn hyn wedi cynnwys arolwg o oedolion ledled y ddinas a galwad am astudiaethau achos, gan gynnwys 29 o sefydliadau o feysydd addysg, gwaith ieuenctid, iechyd, y sector gwirfoddol, a llywodraeth leol, gan gasglu mewnwelediadau ymarferol a myfyrdodau strategol. Yn ogystal, dosbarthwyd arolwg ar wahân a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ar draws timau Cyngor Caerdydd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, gan ddenu 15 o ymatebion. Y cam nesaf yw cynnal adolygiad o safbwynt plant; bydd hyn yn cael ei ddatblygu a'i redeg gyda phlant. Gyda'i gilydd, bydd y canfyddiadau hyn yn darparu darlun manwl o arferion cyfranogi yng Nghaerdydd heddiw ac yn darparu argymhellion ar gyfer gwella.

Trwy Banel Dinasyddion Ifanc Caerdydd, gwahoddir plant i roi eu barn ar newidiadau sy'n cael eu hawgrymu gan yr awdurdod lleol a mynnu eu hawl i gael eu clywed am faterion a allai effeithio arnynt. Er mwyn parhau i helpu i rymuso plant, rydym wedi'u cefnogi ar nifer o brosiectau lle maent wedi gallu helpu i lunio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol: Met Caerdydd; Prifysgol Caerdydd; Prifysgol y Frenhines, Belffast; Young Changemakers; CDLl; Cyfweliadau; DebateMate; BGC; Canolfan Mileniwm Cymru; Dechrau'n Deg; BBC; Pride a nifer o adrannau ar draws y Cyngor.

### Nodi gwahaniaethu neu anghydraddoldeb sy'n rhwystro plant rhag mynnu eu hawliau.

Mae'n bwysig i ni edrych ar y cyd-destun ehangach wrth ddeall **gwahaniaethu ac anghydraddoldeb** ar draws Caerdydd. Dyna pam rydym yn dadansoddi llawer o ddata gan bartneriaid, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant yn y ddinas. Er enghraifft, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY) nawr yn casglu data gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd ar bynciau amrywiol, gan gynnwys eu hawliau. Rydym hefyd yn derbyn data sy'n benodol i Gaerdydd gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru o'i harolwg 'Mater y Mis'. Mae hyn yn gofyn i'r plant roi eu barn ar faterion cyfredol fel diogelwch ar-lein. Rydym yn parhau i ddiweddaru ein llyfrgell ar-lein lle gall sefydliadau gyrchu a rhannu data ar blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn helpu Cyngor Caerdydd a phartneriaid i wneud penderfyniadau gwell i blant ac i ymgysylltu dim ond pan fydd diffyg data.

## Rhoi adborth mwy hygyrch i blant am brosesau gwneud penderfyniadau

Yn aml, mae gwybodaeth am benderfyniadau a newidiadau gan Gyngor Caerdydd yn dod o ffynonellau nad ydynt yn addas iawn i blant. Er mwyn sicrhau rhagor o atebolrwydd a thryloywder, gwnaethom ychwanegu tudalen awgrymiadau ac adborth ar wefan CIC, gan ei gwneud yn haws i bobl ifanc roi eu barn ar welliannau i CIC.

## Rhoi gwybod i blant sut mae eu barn wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadau a thynnu sylw at ba bryd y dilynwyd dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth wneud penderfyniadau

Pan fo pobl ifanc yn cydweithio â sefydliadau neu gofynnwyd iddynt am eu barn gan sefydliadau, rydym yn sicrhau eu bod yn cael adborth am yr hyn sy'n digwydd oherwydd eu cyfraniad. Mae hyn yn elfen allweddol o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc i Gymru. Mae'r adborth hwn ar gael ar wefan CIC a gwefan CAERDYDD DdB. Mae proses wedi'i chreu i gofnodi'r holl ymgysylltiadau a wneir gyda phlant, gan sicrhau y gellir mynd ar drywydd adborth a'i roi yn ôl yn brydlon.

# Effaith

### Dylanwad ar Bolisi

- Wedi helpu i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol, gan flaenoriaethu tai fforddiadwy, trafnidiaeth well, mwy o fannau gwyrdd, a gweithredu ar yr hinsawdd.
- Wedi dylanwadu ar y Strategaeth Cynhwysiant Addysg a recriwtio uwch arweinwyr addysg.
- Wedi darparu cyfraniadau rheolaidd i gyfarfodydd craffu, gan wella tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau yn lleol.

### Grymuso Ieuenctid

- Mae dros 120 o bobl ifanc yn cymryd rhan weithredol mewn rolau gwirfoddoli ac arwain.
- Mae plant wedi rhoi dros 2800 o oriau i fynychu 107 o gyfleoedd i ddylanwadu ar newid.
- Wedi datblygu sgiliau mewn arweinyddiaeth, siarad cyhoeddus, meddwl beirniadol, ac eiriolaeth.
- Wedi cynyddu hyder, ymgysylltu dinesig, ac uchelgais ar draws cymunedau amrywiol.

### Newid Seiliedig ar Hawliau

- Wedi chwarae rhan allweddol wrth gynnal a datblygu statws Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF.
- Wedi arwain sesiynau gwerthuso a chynhyrchu argymhellion i ymgorffori hawliau plant ar draws gwasanaethau a pholisïau.

### Cydweithredu ar draws Sectorau ac yn Rhyngwladol

- Wedi adeiladu partneriaethau cryf gyda Chyngor Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ysgolion a phrifysgolion.
- Wedi cyflwyno mentrau ar y cyd â Chynghorau Ieuenctid Stuttgart a St Helens, gan gynnwys prosiect ffilm dan arweiniad pobl ifanc ar ddemocratiaeth a chynaliadwyedd.

## Cynhwysiant a Chynrychiolaeth

- Wedi mabwysiadu dull cynhwysol sy'n croesawu pobl ifanc ar draws pob nodwedd warchodedig.
- Wedi dileu rhwystrau i gyfranogiad trwy gyfleoedd hyblyg, hygyrch â chymorth.
- Wedi cynrychioli pobl ifanc yn amlwg mewn digwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys Pride Caerdydd, i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

## Cylch Adborth

- Mae plant yn cymryd rhan wrth greu adborth hygyrch a diddorol sy'n tynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd yn y ddinas.
- Mae barn plant yn cael ei bwydo'n ôl iddynt yn rheolaidd ac yn gyson trwy arolwg Mater y Mis y Comisiynydd Plant.
- Rhoddir adborth i'r plant trwy wefan CIC a gwefan CAERDYDD DdB pan fo dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wedi cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau mawr.



# Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym am gyfranogiad

### Yr hyn sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Fe wnaethant ddisgrifio Caerdydd sy'n Dda i Blant (CDdB) fel "gwych" a dweud bod bod yn rhan o CIC yn rhoi cyfleoedd ystyrlon i gymryd rhan ym mywyd y ddinas, gan gynnwys craffu ar wleidyddion. Ystyriwyd bod statws Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant yn gwneud y ddinas yn fwy croesawgar.

Roeddent yn teimlo bod tryloywder da gyda Chyngor Caerdydd, gyda mynediad hawdd at gynghorwyr pan fo angen. Tynnwyd sylw at dystysgrifau gwirfoddolwyr hefyd fel ffactor cadarnhaol, ysgogol sy'n annog cyfranogiad parhaus.

### Yr hyn a allai fod yn well:

Dywedodd pobl ifanc y byddent yn hoffi:

- Cysylltiadau cryfach rhwng CDdB a Senedd Ieuenctid Cymru i sicrhau bod ymatebion yn cael eu derbyn ar faterion allweddol.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer cynulliadau mwy yn ogystal â grwpiau ffocws bach.
- Gwell cydbwysedd rhwng ymgysylltu ar-lein ac yn bersonol, gyda ffafriaeth ar gyfer ymgysylltu wyneb yn wyneb i rannu syniadau a gwneud ffrindiau.
- Ysgolion i ddarparu mwy o gyfleoedd wyneb yn wyneb.
- Gwell ymgysylltiad â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).
- Mwy o gysylltiad ag Aelodau'r Senedd yn ogystal ag aelodau etholedig Cyngor Caerdydd.
- Talebau ar gyfer pob cyfarfod plant, gan gynnwys Cyfarfodydd Cyffredinol CIC, fel cydnabyddiaeth o amser ac ymrwymiad.

Mae'r adborth hwn, ynghyd â'r Adolygiad Cyfranogiad, yn siapio ein camau nesaf, gan sicrhau bod y cynnig cyfranogiad yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol ac yn effeithiol.

# Hawliau Plant ar Waith

## Cyfranogiad

### El

Ymunodd El â Chyngor Ieuenctid Caerdydd yn 13 oed. Ar y dechrau, nid oeddent yn hyderus iawn ac yn ei chael yn anodd siarad. Ond trwy weithdai, hyfforddiant, ac anogaeth gan bobl ifanc eraill, roeddent yn dechrau cymryd rhan mewn dadleuon a phrosiectau yn raddol.

Erbyn yr oeddent yn 16 oed, roedd El wedi datblygu angerdd gwirioneddol am yr amgylchedd. Fe wnaethant feithrin hyder trwy waith is-grŵp, siarad cyhoeddus, a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a llygredd plastig. Fe wnaethant hefyd ymuno â chyfarfodydd craffu, y rhaglenni Cyfwelwyr Ifanc ac Arolygwyr Ifanc, a chynrychioli Caerdydd mewn uwchgynhadledd amgylcheddol genedlaethol, lle gwnaethant gyd-arwain trafodaethau gyda gwyddonwyr.

Dros amser, daeth El yn un o wirfoddolwyr mwyaf ymroddedig CIC, gan gyfrannu cannoedd o oriau a dangos sut y gall cyfranogiad drawsnewid person ifanc swil yn arweinydd hyderus ac eiriolwr dros hawliau plant.

### Idris



Mae gan Idris anabledd corfforol ac mae'n poeni na fyddai'n gallu ymuno mewn hyfforddiant beicio yn yr ysgol. Pan esboniodd hyn i'r tîm diogelwch ar y ffyrdd, fe wnaethant weithio gyda Pedal Power i ddarparu treic wedi'i addasu a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i gefnogi ei anghenion.

Roedd cymryd rhan ochr yn ochr â'i gyd-ddisgyblion yn drobwynt i Idris. Nid oedd yn gwylio o'r ochr mwyach ond yn dysgu'r un sgiliau â'i ffrindiau. Roedd beicio gyda nhw wedi rhoi annibyniaeth, rhyddid, ac ymdeimlad o berthyn iddo. I Idris, dangosodd y profiad fod cynhwysiant yn dod yn bosibl pan fydd gwasanaethau yn gwrando ac yn addasu i anghenion plant.

### Sara




Mae gan Sara anghenion dysgu ychwanegol ac weithiau roedd yn teimlo ei bod wedi'i gadael allan pan oedd oedolion yn gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau a oedd yn defnyddio. Pan hysbysebodd y Cyngor am reolwr newydd yn y tîm Hyfforddiant Teithio Annibynnol, gwahoddwyd Sara a grŵp o ddisgyblion a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant i helpu gyda'r recriwtio.

Roedd yn gwrando ar gyflwyniadau, gofyn cwestiynau, a llenwi ffurflenni gwerthuso ymgeiswyr ar ôl pob cyfweliad. I Sara, dyma'r tro cyntaf iddi gymryd rhan mewn penderfyniad mor bwysig. Roedd yn teimlo bod ei barn yn wirioneddol bwysig. Roedd gwybod bod ei mewnbwn wedi helpu i ddewis y person a fyddai'n cefnogi disgyblion y dyfodol yn rhoi balchder iddi ac ymdeimlad newydd o hyder yn ei llais ei hun.

# 4.1 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

CEDAW

**Yng Nghaerdydd, rydym am i bob plentyn gael ei drin ag urddas a pharch ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.**

## Dull Gweithredu

Cyflawni ymrwymiadau corfforaethol allweddol sy'n bodloni'r egwyddorion a'r safonau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW).

Mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith i ddatblygu ymrwymiad y Cyngor i weithredu yn unol ag egwyddorion CEDAW. Mae hyn wedi cynnwys nifer o linynnau gweithgaredd:

- Mae'r ymrwymiadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-28 y Cyngor a gytunwyd yn ffurfiol gan y Cabinet ym mis Medi 2024.
- Bydd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth gyflawni'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei gyfleu mewn Adroddiad Blynyddol sydd i'w gyhoeddi ym mis Medi 2025.
- Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal gofod pwrpasol ar ei wefan i hyrwyddo diddymu gwahaniaethu yn erbyn menywod (caerdydd.gov.uk) ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ei ymrwymiadau CEDAW.
- Mae modiwl hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol wedi'i ddatblygu ac fe'i lansiwyd ym mis Ionawr 2025.
- Trwy Asesiad Effaith Unigol y Cyngor (sy'n cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb), mae pob penderfyniad ffurfiol gan y Cabinet bellach yn ystyried yr effaith ar fenywod a merched yn systematig.
- Mae hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb bellach yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob Prif Swyddog (Uwch Swyddogion)

## Effaith

**Mae 94% o Uwch Swyddogion wedi cwblhau'r Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**



Ar gyfer 2024/25, pan nodwyd bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) yn ofynnol, gwblhawyd y rhain. Roedd hyn yn golygu, o'r 36 o benderfyniadau a nodwyd fel rhai a oedd angen AEC, y cwblhawyd 36 AEC.

# 4.2 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS


## Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd

### Dull Gweithredu

Monitro a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd (GCI)

- Wedi proffilio llwythi achos yn barhaus i fonitro ethnigrwydd a chanlyniadau yn erbyn gwaelodlin Blwyddyn 0
- Ymgysylltu â phlant am eu profiadau a rhannu canfyddiadau gyda phartneriaid allweddol e.e. yr heddlu
- Adolygiad o'r strategaeth bresennol ar gyfer y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r cynllun gweithgarwch o 2024 ymlaen.
- Parhau i ddatblygu sicrwydd ansawdd o fewn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a sicrhau ffocws cyson ar amrywiaeth.
- Materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth ac anghymesuredd wedi'u gwreiddio mewn cynlluniau goruchwylio a datblygu'r gweithlu.

### Effaith




Drafftio strategaeth amrywiaeth ar gyfer y GCI, a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag anghymesuredd

Mae dadansoddiad parhaus o anghyfartaledd yn cynnwys cynnal archwiliadau dwfn o achosion i nodi a oes tystiolaeth o anghyfartaledd ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi ar gyfer staff.

Ymdrechion parhaus i recriwtio gwirfoddolwyr o bob cymuned leol yng Nghaerdydd i geisio adlewyrchu'r garfan GCI yn gywir

Mae'r GCI wedi ymrwymo i fabwysiadu dull 'Plentyn yn Gyntaf' gyda'r plant a'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda nhw. Mae gwreiddiau 'Plentyn yn Gyntaf' yn CCUHP.

# 4.3 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Rhaglen Arweinyddiaeth

### Dull Gweithredu

Adeiladu ar brosiect peilot llwyddiannus ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd ethnig leiafrifol a dosbarth gweithiol a gynhaliwyd yn 2024. Mae Common Wealth Theatre yn recriwtio ar gyfer cyflwyno'r rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer tymor Hydref 2025.



### Effaith

**Mae'r gwaith hwn wedi rhoi sgiliau, hyder a gwell cysylltiadau i 22 o gyfranogwyr trwy broses greadigol a llawn hwyl. Mae pobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect peilot wedi parhau i gymryd rhan mewn gwahanol raglenni gwaith a byddant yn cael eu gwahodd yn ôl i gefnogi'r garfan newydd ar gyfer 2025.**

# 4.4 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS
## Ymddygiad a Gwaharddiadau mewn Ysgolion

Gweithio i wella ymddygiad a gwaharddiadau mewn ysgolion.

### Dull Gweithredu

- Diweddaru canllawiau gwahardd ysgolion gyda mewnbwn gan ysgolion a'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc.
- Lansio a hyrwyddo'r canllawiau newydd mewn cynadleddau penaethiaid.
- Olrhain ac adolygu data gwahardd yn rheolaidd, gan adrodd bob hanner tymor i'r Tîm Rheoli Addysg a'i rannu gydag ysgolion drwy'r broses Risg Pob Ysgol.
- Datblygu Strategaeth Addysg a Chynhwysiant newydd.

### Effaith

- **Canllawiau ysgol cliriach bellach ar waith i helpu i leihau gwaharddiadau.**
- **Mae olrhain data rheolaidd yn golygu y gallwn nodi tueddiadau'n gynnar a gweithredu.**
- **Mae Strategaeth Addysg a Chynhwysiant ddrafft wedi'i chreu i lywio gwaith yn y dyfodol.**

# 4.5 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS
## Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus

### Dull Gweithredu

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gostyngiad mewn prisiau bysiau i blant a phobl ifanc ledled Cymru, mae Caerdydd bellach yn gweithredu'r polisi ledled y ddinas – gydag ymrwymiad i fonitro a gwerthuso parhaus fel rhan o'r polisi cenedlaethol.

### Effaith

**Bydd pobl ifanc 5 i 21 oed yng Nghaerdydd yn gallu cael mynediad at tocynnau sengl £1 a thocynnau trwy'r dydd £3 ar gyfer 2025/26 – gan alluogi symudedd annibynnol i gael mynediad at ysgolion, hyfforddiant cyflogaeth a gweithgareddau hamdden mewn ffordd fwy teg.**



# 4.6 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Dinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth

### Dull Gweithredu

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i ddod yn Ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth, gan sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw'n dda. Mae strategaeth ddrafft wedi'i datblygu ac ymgynghorir arni dros yr haf. Mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu ymarferol i wella hygyrchedd, cynhwysiant a dealltwriaeth ledled y ddinas, gyda ffocws cryf ar gyd-gynhyrchu â phobl niwrowahanol, gan gynnwys pobl ifanc.

### Effaith

Wedi comisiynu teithiau rhithwir a sain ar gyfer 20 o Hybiau a Llyfrgelloedd fel y gall ymwelwyr archwilio'r gofod a'r gwasanaethau cyn cyrraedd. Dyluniwyd y rhain gyda mewnbwn gan bobl ifanc niwrowahanol, ac mae eu hargymhellion wedi'u hymgorffori.

- Wedi cyflwyno cymhorthion astudio synhwyraidd a bagiau cefn blynyddoedd cynnar – wedi'u cyd-gynhyrchu gyda grŵp ieuenctid Scope a Neuro Roots – y gellir eu benthyg yn ystod ymweliadau â Hybiau a Llyfrgelloedd.
- Wedi gwella mannau mewn Hybiau a Llyfrgelloedd drwy ychwanegu offer a dodrefn sy'n addas i blant a phobl ifanc niwrowahanol, creu corneli synhwyraidd mewn 10 lleoliad, a chodi ymwybyddiaeth trwy ymgyrchoedd, hyfforddiant staff, digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u teilwra ar gyfer plant a phobl ifanc niwrowahanol..

### Beth sydd gan y plant i'w ddweud?

'Mae'n dda iawn bod y ddinas yn meddwl am y plant hynny ag awtistiaeth; mae gan fy mrawd y cyflwr ac mae'n gallu bod yn anodd'

**Person Ifanc (16 oed)**

'Rydych chi'n gallu dweud pan fydd rhywun wedi gwneud newidiadau i'w gwneud hi'n haws i bobl fel fi; mae'n llawer gwell'.

**Person Ifanc (15 oed)**



# 4.7 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Tegwch Rhywedd

## Dull Gweithredu

Eleni, fe wnaethom ehangu ein gwaith tegwch rhywedd i gynnwys bechgyn wrth lunio dinas fwy cyfartal, gan ymateb i'r ceisiadau a wnaed gan ferched y llynedd. Gan weithio gydag Our Voice Our Journey, fe wnaethom dreialu Grwpiau Bechgyn i archwilio perthnasoedd iach a pharch, wedi'u cyd-ddylunio gyda phobl ifanc ac ymarferwyr. Mae recriwtio wedi bod yn gryf, gyda hwyluswyr hyfforddedig yn paratoi i gyflwyno grwpiau ar draws sawl lleoliad.

Mae datblygiad ymarferwyr hefyd wedi bod yn ffocws, gyda hyfforddiant, adnoddau a digwyddiadau yn cael eu darparu ar draws meysydd addysg, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau plant, a'r trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r adnodd Create the Conditions a hyfforddiant gwylwyr wedi'i dargedu.

Rydym hefyd yn ailddatblygu'r Pecyn Cymorth Perthnasoedd, Parch a Chyfrifoldeb i'w ddefnyddio mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid, ac yn dosbarthu This Is Not Yours to Carry, llyfr sy'n helpu plant iau sy'n cael eu hamsugno mewn trais domestig i ddeall nad yw'n eu cyfrifoldeb nhw, i blant mewn llochesi ac elusennau tai.

## Effaith

- Grwpiau Bechgyn wedi'u cyd-ddylunio gyda phobl ifanc ac sydd bellach yn barod i'w lansio ar draws tri lleoliad.
- Dros 30 o ymarferwyr yn cymryd rhan trwy hyfforddiant, digwyddiadau ac adnoddau.
- Gwaith ailddatblygu’r pecyn cymorth ar y gweill, gyda mewnbwn arbenigol i alinio â’r Cwricwlwm i Gymru.
- 150 o lyfrau wedi'u dosbarthu i blant a theuluoedd, gan godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch a pharch.
- Cyflwynwyd y Rhaglen Haf wedi’i hadnewyddu i fechgyn a dynion ifanc
- Un effaith arall – Derbyniodd dros 1,000 o fechgyn weithdai gan She Is Not Your Rehab gyda'r nod o leihau trais domestig



# Hawliau Plant ar Waith
## Cyfartal ac yn Cael eu Cynnwys

### Sian



Roedd Sian yn arfer gweld rhai gwersi yn yr ysgol yn anghyfforddus. Roedd jôcs a sylwadau gan fechgyn yn ei dosbarth yn aml yn mynd heb eu herio, ac roedd yn teimlo'n rhwystredig nad oedd merched bob amser yn cael eu trin â pharch. Eleni, fe newidiodd pethau. Cyflwynodd ei hysgol drafodaethau yn yr ystafell ddosbarth ar degwch rhywedd a gwrywdod cadarnhaol, a chymerodd bechgyn o'i grŵp blwyddyn ran mewn gweithdy dan arweiniad Matt Brown, sylfaenydd She Is Not Your Rehab.

Sylwodd Sian ar wahaniaeth ar unwaith. Dechreuodd athrawon gwrywaidd herio ymddygiad amharchus pan ddigwyddodd, ac roedd bechgyn yn ei dosbarth yn siarad gyda mwy o feddwl a dealltwriaeth. Mae Sian yn teimlo bod ei hysgol o ddifrif am gydraddoldeb. Mae bellach yn teimlo'n fwy hyderus mewn gwersi, yn mwynhau gwell perthynas â'i chyfoedion, ac yn gweld ei chyd-ddisgyblion gwrywaidd fel cyfeillion wrth wneud yr ysgol yn lle mwy parchus i bawb.

### Aled

Roedd Aled bob amser eisiau beicio i'r ysgol gyda'i ffrindiau, ond nid oedd ei deulu'n gallu fforddio beic. Yn ystod hyfforddiant beicio yn yr ysgol, rhannodd hyn gyda'r hyfforddwyr, a adroddodd hynny'n ôl i dîm y Cyngor. Yn fuan wedyn, derbyniodd Aled feic trwy'r cynllun ReCYCLE, sy'n darparu beiciau wedi'u hadnewyddu i bobl ifanc sydd eu hangen.

Nawr, mae Aled yn beicio i'r ysgol y rhan fwyaf o ddyddiau, gan ennill annibyniaeth a hyder. Mae'n teimlo'n falch bod ei lais – sylw syml yn ystod hyfforddiant – wedi helpu i sbarduno datrysiad sydd wedi cefnogi dros 100 o blant ledled y ddinas. I Aled, roedd cael rhywun yn gwrando arno yn golygu nid yn unig cael beic, ond hefyd bod yn rhan o ddinas lle gall syniadau pobl ifanc arwain at newid go iawn.



## Sita

Roedd Sita yn aml yn gweld mannau cyhoeddus yn llethol iawn. Gallai ymweld â'r llyfrgell gyda'i theulu fod yn straen – nid oedd byth yn gwybod sut fyddai'r lle, ac weithiau roedd y sŵn a'r bwrlwm yn ei gwneud yn bryderus.

Dechreuodd pethau newid pan gyflwynodd y llyfrgell gorneli synhwyraidd a bagiau cefn i'w benthyg wedi'u dylunio gyda phobl ifanc niwrowahanol. Defnyddiodd Sita fag cefn synhwyraidd yn ystod ei hymweliadau, a roddodd offer iddi aros yn ddigynnwrf a chanolbwyntio. Cyn ei thaith gyntaf yn ôl, archwiliodd y daith rithwir newydd ar-lein, felly roedd yn gwybod yn union beth i'w ddisgwyl pan gyrhaeddodd.



Nawr, mae Sita yn edrych ymlaen at ei hymweliadau â'r llyfrgell. Mae'n mwynhau dewis llyfrau mewn amgylchedd mwy digynnwrf, mwy croesawgar, ac nid yw ei theulu bellach yn poeni y bydd y profiad yn llethol iawn. I Sita, mae'r newidiadau bach hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr – gan droi'r llyfrgell yn rhywle lle mae'n teimlo ei bod wedi'i chynnwys, yn ddiogel ac yn gallu ffynnu.

## Mohammad

Cyn ymuno â'r rhaglen arweinyddiaeth Take Your Place, nid oedd Mohammad yn gweld ei hun fel arweinydd. Anaml y gwelodd fodelau rôl a oedd yn edrych fel fe mewn swyddi dylanwadol ac nid oedd yn siŵr sut y gallai wneud i'w lais gael ei glywed.

Trwy'r rhaglen, a gynhelir gan Common Wealth Theatre, datblygodd Mohammad sgiliau newydd mewn cyfathrebu ac arweinyddiaeth. Adeiladodd gyfeillgarwch, daeth o hyd i hyder wrth siarad, a chyfarfu â modelau rôl o'i gymuned ei hun a'i ysbrydolodd i gredu bod arweinyddiaeth yn bosibl.

Ers cwblhau'r cwrs, mae Mohammad wedi cymryd rhan mewn dau brosiect cymunedol newydd – ymgyrch dan arweiniad pobl ifanc ar weithredu ar yr hinsawdd a gŵyl ddiwylliannol leol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi rhoi llwyfan iddo gyfrannu ac i weld ei hun fel rhan o ddyfodol Caerdydd

# CANLYNIADAU AROLWG ALLWEDDOL

## Addysg

- Cyhoeddwyd adroddiad arolwg diweddaraf Cyngor Caerdydd gan Estyn – Adroddiad arolwg Cyngor Caerdydd 2022 - Estyn – yn 2022, ac nid yw'r dyddiad ar gyfer yr arolwg nesaf wedi'i gadarnhau eto.
- Dros y tair blynedd diwethaf, mae 77 o ysgolion yng Nghaerdydd – sy'n cynrychioli tua 60% o'r holl ysgolion – wedi cael eu harolygu. Yn 2024/25, mae 2.3% o ysgolion Caerdydd yn destun gweithgarwch dilynol, gan gynnwys un ysgol sydd angen gwelliant sylweddol a dwy sy'n rhwym i fesurau arbennig.
- Gallwch gael mynediad at adroddiadau arolygon ysgolion yn uniongyrchol drwy Adroddiadau Arolwg Diweddaraf – Estyn. Mae'r dudalen yn eich galluogi i hidlo canlyniadau yn ôl awdurdod lleol i ddod o hyd i adroddiadau sy'n berthnasol i'ch ardal.

## Cyfiawnder Ieuenctid

- Cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd (GCI) ei arolygu yn fwyaf diweddar yn 2022 gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi, ochr yn ochr ag arolygwyr o'r heddlu, iechyd, addysg ac asiantaethau gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad arolwg llawn ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EF: Arolwg o wasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghaerdydd.

## Amddiffyn Plant

- Yn 2024, roedd Caerdydd yn destun Adolygiad Arolygiaethau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA), a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at feysydd cryfder a meysydd i'w gwella, a gellir ei weld ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru drwy Adroddiad JICPA Caerdydd 2024.




# PARTNERIAETHAU PARHAUS

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod wrth wraidd cynnydd Caerdydd sy'n Dda i Blant dros y flwyddyn ddiwethaf. Trwy ddod â phrifysgolion, gwasanaethau'r Cyngor, mudiadau gwirfoddol, a phobl ifanc eu hunain at ei gilydd, rydym wedi cryfhau diwylliant o gydweithio sy'n rhoi hawliau plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.


Ymhlith yr uchafbwyntiau mae gweithio gydag Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd i ddatblygu sesiwn friffio "Gweledigaeth ar gyfer Chwarae", a phrosiect HerParks, a oedd yn ymgysylltu â phobl ifanc – yn enwedig merched yn eu harddegau – i fapio ac ail-ddychmygu parciau. Mewn partneriaeth ag AtkinsRealis, gwnaethom gyd-ddatblygu fframwaith lles arloesol ar gyfer asesu profiadau plant mewn amgylcheddau trefol, tra bod cydweithrediad â Chanolfan Gwyddoniaeth a Pholisi Prifysgol Caergrawnt wedi archwilio sut olwg allai fod ar 'Caergrawnt sy'n Dda i Blant'. Ar draws Cyngor Caerdydd, helpodd pobl ifanc i lunio strategaethau o gynhwysiant addysg i niwroamrywiaeth a diogelwch cymunedol, a chyfrannu at brosesau cynllunio mawr fel y Cynllun Datblygu Lleol.

Ymestynnwyd partneriaethau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda chyfraniadau at ymchwil ar alluoedd esblygol gyda Phrifysgol y Frenhines, Belffast, cefnogi Aelodau Senedd Ieuenctid y DU gyda Plant yng Nghymru a'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, a chyfnewidiadau gyda gefeilldrefi Stuttgart a St Helens. Ffynnodd cydweithrediadau lleol hefyd trwy Gynghorau Mawr, cyfweliadau dan arweiniad pobl ifanc, a chyd-ddylunio mannau cynhwysol mewn gwyliau a digwyddiadau. Gyda'i gilydd, mae'r partneriaethau hyn yn dangos sut mae rhannu arbenigedd, arloesedd ac ymrwymiad i gyfranogiad yn hyrwyddo uchelgais Caerdydd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu ffynnu.



# CRYNODEB

Wrth i ni symud i gam nesaf ein taith, bydd Caerdydd yn parhau i gryfhau ei hymrwymiad i wneud hawliau plant yn realiti byw i bob plentyn a pherson ifanc. Gan adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd dros nifer o flynyddoedd, ein huchelgais yw ymgorffori hawliau'n ddyfnach ar draws pob gwasanaeth, gwella canlyniadau i blant, a sicrhau tegwch a chynhwysiant ym mhob rhan o fywyd y ddinas. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a hyfforddi ein gweithlu fel y gallant ddarparu gwasanaethau rhagorol sy'n diwallu anghenion plant a'u teuluoedd. Rydym yn gwybod y gellir cyflawni hyn dim ond trwy weithio mewn partneriaeth – gydag ysgolion, cymunedau, sefydliadau, ac yn bwysicaf oll trwy wrando ar blant a phobl ifanc eu hunain a gweithredu gyda nhw. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i siapio dinas sy'n ddiogel, yn deg ac yn llawn cyfleoedd i bob plentyn.



# GEIRIAU

## (Rhestr o eiriau pwysig a'u hystyron)

Aelodau etholedig – Aelodau o'r Cyngor/Senedd sy'n cael eu hethol gan breswylwyr.

Anghymesuredd – Pan nad yw pethau'n gytbwys neu'n deg.

Ar y cyrion – Cael eich gwthio i'r ochr neu gael eich gadael allan.

Atebolrwydd – Pan fo person neu grŵp o bobl yn cymryd cyfrifoldeb am gam gweithredu.

Awdurdod lleol – Corff o fewn y llywodraeth sy'n darparu gwasanaethau ym mhob ardal leol.

Craffu – Rôl craffu yw edrych ar faterion sy'n bwysig i breswylwyr Caerdydd, dwyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor i gyfrif a gyrru gwelliannau i wasanaethau a pherfformiad.

Cydraddoldeb – Pan fo pawb yn cael yr un pethau.

Cydymffurfio – Yn golygu gwneud yr hyn yr ydych i fod i'w wneud neu ddilyn y rheolau.

Cyfranogiad – Y weithred o gymryd rhan mewn rhywbeth/bod yn ymwneud â rhywbeth.

Cynaliadwy – Pan fo prosiect yn gallu parhau i redeg oherwydd bod yr adnoddau ar gael.

Cynllun gweithredu – Cam gweithredu a awgrymwyd neu a gynlluniwyd yn flaenorol.

Dangosfwrdd cydymffurfio – Yn dangos i chi pwy sy'n gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud neu pwy sy'n dilyn y rheolau.

Data – Ffeithiau ac ystadegau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd.

Gwahaniaethu – Trin rhywun yn annheg neu'n wahanol dim ond oherwydd pwy ydyn nhw neu sut olwg sydd arnynt.

Gwasanaethau cyhoeddus – Gwasanaeth sydd â'r diben o helpu'r cyhoedd ac sy'n cael ei ddarparu gan y llywodraeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ysbytai, ysgolion yr heddlu ac ati.

Pwrpasol – Rhywbeth wedi'i wneud yn arbennig i rywun.

Tegwch – Pan fo pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt er mwyn iddo fod yn deg – nid o reidrwydd yr un pethau.

Ymgynghoriad – Pan fyddwch yn cwrdd â pherson neu grŵp o bobl sy'n arbenigwyr mewn pwnc penodol